



Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

Cymryd agwedd wahanol i gyflawni System Gyfiawnder Troseddol gwrth-hiliol yng Nghymru

Cyfres Seminarau Gwanwyn/ Haf 2023

Dydd Iau 22 Mehefin 2023, 10:00 - 11:30

PENAWDAU

Ar ddiwedd y seminar, cipiodd tîm y Rhwydwaith benawdau allweddol gan y cynrychiolwyr. Mae'r ymatebion wedi'u coladu isod.

- Yn gryno, rydym yn canolbwyntio llawer ar fyfyrion a siarad a cheisio codi ein hymwybyddiaeth, ond rwy'n meddwl bod angen i ni wneud yn well a chanolbwyntio nawr ar symud tuag at wneud a rhoi'r myfyrdodau hynny ar waith yn fwy penodol.
- Rwy'n meddwl ei bod yn bwysig gweithio ar wasanaethau sy'n amlieithog.
- I mi, mae'n ymwneud â chydabod na fydd y rhai sydd yn y parth ofn ac nad ydynt yn cydnabod neu'n ymhlyg mewn caniatáu i hiliaeth barhau yn mynychu'r digwyddiadau hyn ac yn cymryd rhan mewn trafodaeth. Felly, mater i ni yw cymryd y sgysiau hyn yn ôl a'u herio yn eu gofodau eu hunain. Rwy'n meddwl bod y graffeg gwrth-hiliol gan Surgery Redesign yn mynd i fod yn arf gwyb i agor y trafodaethau hynny.
- Rwy'n ymwybodol o'r angen i ystyried fy mraint gwyn fy hun a myfyrio ar yr hyn y gallaf ei wneud i gefnogi bod yn wrth-hiliol a dysgu a herio hiliaeth yn barhaus.
- Addysg ym mhob rhan o gymdeithas gan gynnwys chwalu mythau a gwybodaeth ffeithiol gywir. Addysg i weithwyr proffesiynol, cymunedau, plant ac ati. Mae goresgyn naratif atgas ar gyfryngau cymdeithasol yn her enfawr gan ei fod yn effeithio ar ganfyddiad pobl, yn enwedig yn fy mhrofiad o gymunedau a Cheiswyr Lloches/ Ffoaduriaid. Mae gennym ni gwrs a ddatblygwyd gennym yn "Cydlyniant Cymunedol" gyda Chymorth i Ddiodefwyr ac sy'n cynnwys pecyn cymorth ar sut i reoli casineb ar-lein a rhoi'r offer i weinyddwyr cyfryngau cymdeithasol ddelio â rhethreg atgas.
- Yr unigolion sydd wir angen bod yn rhan o'r sgysiau hyn yw'r rhai sy'n gyndyn o gymryd rhan ac yn aml ddim yn mynychu. Yn y pen draw, rydyn ni'n "pregethu i'r rhai sydd wedi'u trosi" yn y sesiynau hyn. Mae angen trafodaethau mwy rheolaidd fel yr un hon fel y gallwn barhau â'r cydweithio ac adeiladu rhwydweithiau cryfach.

DOLENNI DEFNYDDIOL

- Gwefan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru – [Safer Communities for Wales - Wales Safer Communities](#)
- Cofrestrwch i dderbyn cylchlythyr pythefnosol Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru, BRIFF, drwy e-bostio safercommunities@wlga.gov.uk
- Cynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol i Gymru – [Criminal Justice Anti-Racism Action Plan for Wales - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#) & https://www.southwalescommissioner.org.uk/media/2432/c22-0119_criminal-justice-anti-racism-action-plan-for-wales_report_criminal-justice-in-wales_interactive.pdf
- Cynllun Gweithredu Cymru Gwrth-hiliol Llywodraeth Cymru – [Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol | LLYW.CYMRU](#) & [Anti-racist Wales Action Plan | GOV.WALES](#)
- [Windrush Lessons Learned Review response: comprehensive improvement plan - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)
- [We are the Women's Equality Network Wales - Womens Equality Network Wales \(wenwales.org.uk\)](#)
- [Criminal: How Our Prisons Are Failing Us All by Angela Kirwin | Goodreads](#)
- [DARPL - Diversity and Anti-Racism Professional Learning](#)